Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Gweithio Amlasiantaethol yng Nghwm Taf Morgannwg

**Amy Lloyd, Charlotte Morgan, Dan Bristow,**
**Jo Flanagan, Kathryn Catterall, Ben Lewing**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations –
What Works Centre for Children and Families
Awst 2023

Foundations
What Works Centre for Children & Families

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i gymhwyso.  Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a allai helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** ym 1883.  Mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin cydberthnasau rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI
Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 7

**Cwestiynau adolygu a dull** 8

Cwestiynau adolygu 9

Dulliau 9

Fframwaith: Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar 10

**Cyfrifoldebau statudol** 11

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) 11

Deddf Plant (2004) 12

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 12

Rhaglen Drawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar 13

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 14

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 14

Crynodeb: tirlun polisi a deddfwriaethol cymhleth 14

**Aeddfedrwydd gweithio amlasiantaethol yn CTM** 17

Cynllunio 17

Arwain 18

Cyflawni 19

Gwerthuso 20

**Materion blaenoriaeth yn CTM** 20

Cyd-arweinyddiaeth a chyd-weledigaeth ac eglurder ynghylch rolau priodol y gwahanol gyrff rhanbarthol 21

Amser ac adnoddau i wneud cyfranogiad y gymuned yn dda 22

Cyd-ddealltwriaeth o'r angen ar draws awdurdodau lleol 24

**Nodi datrysiadau rhanbarthol 24**

Datblygu trefniadau partneriaeth strategol a strategaeth gysylltiedig ar gyfer plant mewn perygl 25

Datblygu methodoleg cyson ar gyfer ymwneud ac ymgysylltu â'r gymuned 26

Datblygu dull mwy cydgysylltiedig er mwyn deall angen 27

**Argymhellion 29**

**Casgliad 34**

**Atodiad A – Cwestiynau Gweithdy 1 39**

**Atodiad B – Cwestiynau Gweithdy 2 41**

**Atodiad C - Gweithredu 42**

Manylion yr Awduron 45

# Crynodeb

Mae nifer a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn parhau i fod yn destun pryder o ran polisi. Mae plant sy'n cael eu cymryd i ofal yn profi canlyniadau gwaeth o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd, diweithdra, digartrefedd a chyfiawnder troseddol.

Mae ffactorau penodol yn golygu bod plant yn fwy tebygol o fod angen gofal, gan gynnwys amddifadedd a'r triawd tocsig, sef cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl mewn rhieni a gofalwyr. Rhennir y cyfrifoldeb am gefnogi teuluoedd sy'n cyflwyno'r nodweddion hyn ar draws gwahanol adrannau o'r llywodraeth, asiantaethau a phartneriaethau, ac felly mae angen gwaith amlasiantaethol effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i hyrwyddo gwaith amlasiantaethol drwy gyfres o fentrau polisi, deddfwriaeth a chyllid, ac mae strwythurau rhanbarthol yn allweddol i hyn. Roedd ganddon ni ddiddordeb mewn archwilio sut mae rhanbarthau'n ymateb i'r amgylchedd polisi.

Er mwyn archwilio hyn, aeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations – What Works Centre for Children and Families ati i gydweithio gyda rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol sy'n gweithio'n amlasiantaethol ar gyfer plant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg (CTM). Mae CTM yn cwmpasu tri Awdurdod Lleol, sef Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, ac mae'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae yna gymhelliant ac angen yn CTM i ddarparu ymateb amlasiantaethol effeithiol i anghenion plant a theuluoedd.

Defnyddiwyd Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar EIF i ddeall aeddfedrwydd gweithio amlasiantaethol yn CTM. Teclyn hunanasesu yw'r Matrics, a ddefnyddir yn aml ledled Cymru i ddeall cryfderau systemau a meysydd i'w gwella.

Y nod oedd deall:

1. Y cyfrifoldebau statudol ar lefel ranbarthol sy'n berthnasol i gyflawni gwasanaethau i blant a theuluoedd
2. "Aeddfedrwydd" gweithio amlasiantaethol o fewn ac ar draws y rhanbarth
3. Camau y gellid eu cymryd ar lefel ranbarthol i gefnogi gweithio amlasiantaethol

Er mwyn cyflawni hyn, cynhaliwyd **adolygiad desg**; cafwyd **trafodaethau anffurfiol** gydag 11 o bobl sy'n rhan o gydlynu a darparu gwasanaethau ledled CTM; a chynhaliwyd dau **weithdy**, lle cafwyd 34 o gyfranogwyr sy'n gweithio ar draws gwasanaethau cymdeithasol, diogelu, diogelwch cymunedol, yr heddlu, y trydydd sector, y bwrdd iechyd, cyd-gomisiynu, gofal cymdeithasol a thri awdurdod lleol.

Mae cyfrifoldebau statudol yn y rhanbarth

yn gymhleth ac yn amlochrog. Mae'r fframwaith deddfwriaethol, cyllid a pholisi cenedlaethol wedi arwain at ddatblygu ystod o fyrddau strategol â chylchoedd gwaith sy'n gorgyffwrdd i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed, megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Diogelu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru (2021) yn cydnabod hyn ac wedi caniatáu i ranbarthau ddatblygu diffiniadau lleol o wahanolrwydd a / neu feysydd cydweithio ar draws y partneriaethau strategol hyn. O ganlyniad i hyn, mae asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn ardal CTM, ac mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru, yn gweithredu mewn tirlun cymhleth.

Rhannodd cyfranogwyr y gweithdai enghreifftiau cadarnhaol o weithio amlasiantaethol yn CTM. Mae'r gwaith a wnaed i ddiffinio blaenoriaethau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a'r rhaglenni gweithgarwch cysylltiedig a ddatblygwyd, yn dangos yr ymdrechion a wnaed i integreiddio ar draws ffiniau sefydliadol i ddatblygu modelau gofal allweddol. Gwnaed ymdrechion hefyd i ddiffinio gweithio mewn partneriaeth mewn sawl fframwaith deddfwriaethol.

Nododd y cyfranogwyr feysydd allweddol i'w gwella, er mwyn adeiladu ar lwyddiannau presennol:

- **Cyd-arweinyddiaeth, cyd-weledigaeth ac eglurder.** Mae hyn yn bodoli o fewn strwythurau presennol (e.e. mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi diffinio hyn) ond nid ar draws strwythurau (hynny yw ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).
- **Amser ac adnoddau i 'wneud' perchnogaeth gymunedol yn dda.** Mae enghreifftiau o waith clodwiw yn ymgysylltu â'r gymuned, ond mae diffyg amser ac adnoddau yn golygu nad dyma yw'r norm.
- **Cyd-ddealltwriaeth o angen ar draws yr Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill.** Mae yna enghreifftiau o waith sy'n datblygu darlun a rennir, er enghraifft drwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth, ond yn aml mae data a gwybodaeth mewn seilos parthau polisi neu strwythurau rhanbarthol.

Wrth archwilio sut gall y rhanbarth adeiladu ar hyn, nododd cyfranogwyr y gweithdai dri maes ffocws rhyng-gysylltiedig ar gyfer gwella gweithio amlasiantaethol ymhellach:

- Datblygu trefniadau partneriaeth a strategaeth gysylltiedig ymhellach ar gyfer plant a theuluoedd sy'n agored i niwed;
- Datblygu methodoleg gyson ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltiad y gymuned ar draws y rhanbarth;
- Datblygu dull mwy cydgysylltiedig er mwyn deall angen.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfeirio at y gwaith sydd ei angen ar draws rhanbarth daearyddol CTM, gan ymestyn ar draws ffiniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r byrddau strategol sy'n eistedd o fewn y strwythurau hyn.

# Cyflwyniad

Mae nifer a chyfraddau’r plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru yn parhau i fod yn destun pryder o ran polisi. Mae plant sy'n cael eu cymryd i ofal yn profi canlyniadau gwaeth o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd, diweithdra, digartrefedd a chyfiawnder troseddol. Mae ffactorau penodol yn golygu bod plant yn fwy tebygol o fod angen gofal, gan gynnwys amddifadedd a’r triawd tocsig, sef cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl mewn rhieni a gofalwyr. Po fwyaf o’r profiadau hyn y mae plentyn yn dod i gysylltiad â nhw, y mwyaf tebygol maen nhw o gael eu rhoi mewn gofal. Yng Nghymru, mae amrywiad o 72% yn nifer a chyfraddau’r plant mewn gofal yn cydberthyn â’r cyfuniad o amddifadedd a’r triawd tocsig (Hodges, 2020). Rhennir cyfrifoldeb am gefnogi teuluoedd sydd â’r nodweddion hyn ar draws gwahanol adrannau llywodraethol, asiantaethau a phartneriaethau.  Mae darparu cymorth i deuluoedd i atal plant rhag mynd i ofal yn gofyn am weithio amlasiantaethol effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Mae lefelau amddifadedd yng Nghymru yn uwch na Lloegr a’r Alban (Abel et al, 2016). Ardal yn ne Cymru sy’n cynnwys tri awdurdod lleol, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, a Merthyr Tudful, yw rhanbarth Cwm Taf Morgannwg (CTM), lle mae rhai o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Merthyr Tudful sydd â’r ganran uchaf o bobl yn byw mewn cartrefi sydd mewn amddifadedd materol o holl Awdurdodau Lleol Cymru (21%; Cymru=13%) (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2020). O gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru, mae gan CTM ganran uwch o enedigaethau â phwysau geni isel, canran is o blant â phwysau iach yn 5 oed (Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, 2016), ac mae gan yr awdurdodau lleol 3 o’r 5 cyfradd uchaf o gofrestriadau amddiffyn plant yng Nghymru. Mae yna gymhelliant ac angen yn CTM i ddarparu ymateb amlasiantaethol effeithiol i anghenion plant a theuluoedd..

Mae gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations – What Works Centre for Children and Families (y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar gynt) ddiddordeb hirsefydlog yn effeithiolrwydd gweithio amlasiantaethol ym maes gwasanaethau plant.  Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi gweithio ar ddeall y nifer cynyddol o blant sydd mewn gofal yng Nghymru, ac ymagweddau effeithiol i fynd i’r afael â’r duedd hon, gan gynnwys cynnal adolygiad ar sut gall gweithio amlasiantaethol ym maes gwasanaethau plant arwain at ganlyniadau cadarnhaol (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2021). Roedd y Ganolfan wedi sefydlu cysylltiadau â chynrychiolwyr yn CTM. Mae Foundations wedi gweithio ar draws Cymru a Lloegr, gan gefnogi ardaloedd lleol i ddefnyddio tystiolaeth i wella ymyrraeth gynnar effeithiol ar gyfer plant yn eu

blynyddoedd cynnar.  Mewn ymateb i'r heriau a nodwyd, datblygodd Foundations fatrics mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar: fframwaith i gefnogi dull system gyfan ar gyfer nodi meysydd i'w gwella a chydweithio i gyflawni newidiadau cadarnhaol.

Cydweithiodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations gyda rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol sy'n gweithio'n amlasiantaethol ar gyfer plant a theuluoedd yn rhanbarth CTM ar y gwaith o ddylunio a darparu'r prosiect hwn, gyda'r nod o ddeall sut roedd gweithio amlasiantaethol yn gweithredu yn rhanbarth CTM a nodi argymhellion y gellid eu gweithredu.

# Cwestiynau adolygu a dull

Cynhaliwyd cyfarfod cynllunio cychwynnol gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations ym mis Ebrill 2022 i bennu cwmpas canlyniadau'r prosiect gan ddefnyddio damcaniaeth newid, rolau pob sefydliad ac amserlenni ar gyfer cyflawni. Roedd y ddau sefydliad yn dymuno deall mwy am rôl strwythurau llywodraethu rhanbarthol yng Nghymru, sut cânt eu gweithredu yn unol â deddfwriaeth y Llywodraeth, yn ogystal â sut maent yn cyd-fynd ac yn rhyngweithio â phartneriaethau lleol mewn perthynas â chefnogi plant sydd 'mewn perygl'.

Datblygodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations gyfres o gwestiynau ymchwil a fyddai'n galluogi gwell dealltwriaeth o safbwyntiau polisi ac arfer, y gellid eu profi â chynrychiolwyr rhanbarthol. Roeddent yn dymuno deall mwy am y fframwaith deddfwriaethol a sut roedd hyn wedi arwain at ddatblygu ystod o fyrddau strategol yn rhanbarthol oedd â chyfrifoldeb am oruchwylio darpariaeth ar gyfer plant sydd mewn perygl. Roedd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Foundations hefyd yn awyddus i ddeall safbwyntiau'r ardal leol am drefniadau rhanbarthol a'u perthynas â chynllunio lleol, yn ogystal â sut mae materion sy'n anodd eu datrys ar y lefel leol yn cael eu dwysáu a'u gweithredu ar y lefel ranbarthol.

Datblygodd y prosiect yn organig, a chafodd ei lywio gan yr hyn a ddysgwyd o bob cwestiwn ymchwil. Creodd hyn gyfleoedd ar gyfer iteriad wrth i lefelau gwybodaeth gynyddu. Llywiodd adolygiad o'r ddeddfwriaeth a gwaith mapio'r holl fyrddau strategol rhanbarthol y penderfyniadau o ran pa gwestiynau i'w gofyn i randdeiliaid lleol a rhanbarthol mewn dau weithdy, yn ogystal â sgyrsiau anffurfiol gyda rhanddeiliaid lleol. Arweiniodd allbynnau o'r sgyrsiau hyn at drafodaethau gyda rhanddeiliaid rhanbarthol am y canfyddiadau, a beth hoffai'r rhanbarth ei wneud gyda'r wybodaeth newydd a gafwyd, gan gysylltu â strwythurau llywodraethu presennol.

## Cwestiynau adolygu

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar ddeall profiad y rhai sy'n ceisio gweithio'n amlasiantaethol ar gyfer plant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg (CTM), gyda'r nod o ateb y cwestiynau canlynol:

1. Beth yw'r cyfrifoldebau statudol sy'n cael eu dal ar lefel ranbarthol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd?
    a. Sut mae'r rhain yn cael eu cyflawni yn rhanbarth CTM ar hyn o bryd?
    b. Pa grwpiau sydd â chylch gwaith i sicrhau darpariaeth gydlynol o wasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol a mwy cymhleth?
2. Pa mor 'aeddfed' yw gweithio amlasiantaethol o fewn ac ar draws y grwpiau hyn yn rhanbarth CTM?
    a. Beth yw'r heriau o ran gweithio amlasiantaethol na ellir eu datrys ar y lefel leol, ac y mae angen dull rhanbarthol ar eu cyfer?
    b. Beth yw'r meysydd gweithio effeithiol, a sut mae'r rhain wedi'u datblygu?
3. Pa gamau ellid eu cymryd ar lefel ranbarthol i wella gweithio amlasiantaethol? Sut mae dyletswyddau statudol cyrff rhanbarthol yn hwyluso gweithio amlasiantaethol? Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi gweithio amlasiantaethol?

## Dulliau

Ymdriniwyd â'r cwestiynau adolygu gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- **Adolygiad desg:** Adolygwyd gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y polisïau a'r canllawiau i ddatblygu map o ofynion statudol a gweithredol ar draws grwpiau ac is-grwpiau.
- **Trafodaethau anffurfiol:** Cafodd y canfyddiadau o'r adolygiad desg eu gwirio o ran ystyr mewn trafodaeth gydag 11 o bobl oedd yn rhan o gydlynu a darparu gwasanaethau yn CTM, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022.
- **Gweithdai:** Mynychodd ymarferwyr, darparwyr gwasanaethau a phenderfynwyr ddau weithdy.
    - Nod y gweithdy cyntaf oedd profi'r themâu allweddol a nodwyd o'r adolygiad desg, asesu aeddfedrwydd gweithio rhanbarthol yn CTM ar y

lefel leol, a nodi heriau. Cynhaliwyd y gweithdy dwy awr hwn ym mis Rhagfyr 2022, a mynychodd 20 o bobl a oedd yn gweithredu yn CTM ar draws gwasanaethau cymdeithasol, diogelu, diogelwch cymunedol, yr heddlu, y trydydd sector a'r bwrdd iechyd. Mae'r cwestiynau a ddefnyddiwyd wedi'u cyflwyno yn Atodiad A.

- Roedd yr ail weithdy'n canolbwyntio ar ddatblygu argymhellion ar gyfer datrysiadau i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yng ngweithdy 1. Cynhaliwyd yr ail weithdy ym mis Mawrth 2023. Roedd 14 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y gweithdy dwy awr hwn, o'r maes iechyd, cyd-gomisiynu, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, yr heddlu, a'r tri awdurdod lleol. Roedd pedwar o'r cyfranogwyr a oedd yn gweithredu ar lefelau uwch ar draws y rhanbarth hefyd wedi bod i'r gweithdy cyntaf. Mae'r cwestiynau a ddefnyddiwyd wedi'u cyflwyno yn Atodiad B.

## Fframwaith: Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar

Defnyddiwyd fersiwn wedi'i haddasu o Fatrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (2021) fel fframwaith trosfwaol ar gyfer yr adolygiad desg, y trafodaethau anffurfiol a'r gweithdai. Teclyn hunanwerthuso yw'r Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar, sy'n helpu ardaloedd lleol er mwyn mesur cynnydd wrth greu system leol i helpu plant i ffynnu ac i arwain gwaith cynllunio i wneud y system leol yn fwy effeithiol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i osod gwaelodlin er mwyn mesur cynnydd dros amser. Gellir cwblhau'r matrics yn unigol, neu fel strwythur ar gyfer trafodaeth grŵp, neu'r ddau. Mae'r cyfranogwyr yn graddio'r ardal leol yn erbyn disgrifyddion mewn 10 elfen allweddol, ac yn ystyried y rhwystrau rhag newid a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn seiliedig ar y lefel aeddfedrwydd a nodwyd ar gyfer pob elfen allweddol. Mae'r matrics yn gweithio orau pan fydd ystod o bobl â gwahanol brofiadau a safbwyntiau yn cymryd rhan, a phan gallant glywed a chymedroli cyfraniadau ei gilydd i adeiladu llun mwy cyflawn. Mae'r pedwar dimensiwn fel a ganlyn:

**Cynllunio:** Y trefniadau ar gyfer cynllunio'r system gymorth leol, gan ddefnyddio data ar anghenion y boblogaeth, ac adnoddau ariannol a dynol.

**Arwain:** Sut caiff strategaeth leol ei gyrru gan drefniadau partneriaethau strategol a sut mae'r gymuned leol wedi'u cynnwys.

**Cyflawni:** Sut caiff gwasanaethau gweithredol eu trefnu mewn modd cydlynol i gyflawni cefnogaeth effeithiol i deuluoedd.

**Gwerthuso**: Sut caiff cynnydd o ran canlyniadau ei fesur, sut brofiad yw'r gefnogaeth o safbwynt teuluoedd, a sut mae partneriaid lleol yn defnyddio ac yn cynhyrchu tystiolaeth.

Defnyddiwyd y pedwar dimensiwn i fframio safbwyntiau lleol am weithio amlasiantaethol o fewn ac ar draws grwpiau yn rhanbarth CTM, ac i nodi cyfleoedd canfyddedig ar gyfer gwella.

# Cyfrifoldebau statudol

Mae gan strwythurau rhanbarthol rôl allweddol, â'i seiliau mewn deddfwriaeth, yn cydlynu'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau ar draws asiantaethau. Caiff y strwythur a'r fframwaith ar gyfer gweithio amlasiantaethol ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru ei siapio gan ddeddfwriaeth genedlaethol, strategaethau, a chanllawiau, gan gynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant (2004)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Rhaglen Drawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
- Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22

Ceir amlinelliad o bob un o'r rhain a'r goblygiadau ar gyfer gweithio amlasiantaethol yng Nghwm Taf Morgannwg isod.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), crëwyd saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar draws Cymru i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM yn cynnwys tri awdurdod lleol (Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful), ac un Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Yn 2018, sefydlodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM y Bwrdd Integreiddio/Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol, i oruchwylio'r gwaith o drawsnewid, datblygu a darparu gwasanaethau rhanbarthol, gan gynnwys rhai i blant a theuluoedd. Mae Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol yn cydlynu gwaith y Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Plant, a'r Bwrdd Rhaglen Trawsbynciol. Mae'r Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Plant yn goruchwylio pump is-grŵp: Llety preswyl integredig; Gofal parhaus; y Gwasanaeth Cymorth Sefydlogrwydd Cynnar Amlasiantaeth (MAPPS); llesiant emosiynol – gweithredu fframwaith cymorth a chefnogaeth gynnar/NEST (Gweithrediaeth GIG Cymru, 2022); a datblygu teclyn cyfathrebu MUSE (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, 2023).

Crëwyd Fframwaith NEST i helpu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio dull 'system gyfan' wrth gynllunio gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, a'u teuluoedd yn ehangach ledled Cymru.

## Deddf Plant (2004)

Nod Deddf Plant (2004), sef Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, oedd helpu awdurdodau lleol ac endidau eraill i reoleiddio ymyriadau'n well er budd plant. Yng Nghymru, sefydlwyd Byrddau Diogelu Plant o dan y Ddeddf Plant (2004), a chawsant eu hailstrwythuro o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014).

Mae Bwrdd Diogelu Plant CTM yn eistedd o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a'i nod yw dod ag awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, yr heddlu, gwasanaethau prawf ac adsefydlu cymunedol at ei gilydd i amddiffyn plant ac atal niwed. Mae Bwrdd Diogelu CTM yn goruchwylio Grŵp Sicrhau Ansawdd MARAC, Pwyllgor Gweithredol MASH a'r Cyd-bwyllgor Gweithredol. Mae'r Cyd-bwyllgor Gweithredol yn goruchwylio'r Grŵp Amlasiantaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, yr is-grŵp Addysgu a Dysgu, a'r is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chyfathrebu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sefydlwyd 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod â chyrff cyhoeddus ynghyd ar lefel ranbarthol ar draws Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu, tân ac achub, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus eraill sy'n gweithredu yn y rhanbarth, yn ogystal â mewnbwn gan y gymuned. Ar ôl i rai ohonynt uno, mae bellach 13 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; nid yw ôl-troed daearyddol pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o reidrwydd yn gyson ag ôl-troed y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CTM yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn wreiddiol; ymunodd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CTM yn goruchwylio'r Bwrdd Partneriaeth Strategol, y Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, a'r Bwrdd Trawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (EYITP), y mae gan bob un gylch gwaith ar gyfer cydlynu gwahanol agweddau ar wasanaethau i blant a theuluoedd.

## Rhaglen Drawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Crëwyd Rhaglen Drawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (EYITP) i gefnogi Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, a'r trydydd sector i gydlynu ymagwedd fwy cydgysylltiedig tuag at ddarparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Ym mis Rhagfyr 2017, rhanbarth CTM oedd y cyntaf o naw rhanbarth i gymryd rhan fel braenarwyr mewn rhaglen gyd-adeiladu gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu model integreiddio'r blynyddoedd cynnar.

Nod EYITP yn CTM yw datblygu a pheilota ymagwedd integredig ar sail angen i ddarparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar gwell yn seiliedig ar y cyd-destun lleol. Mae Bwrdd Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, sy'n atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CTM, hefyd yn cynnwys uwch swyddogion allweddol o'r tri awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Roedd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDSV) yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth atal, amddiffyn a chefnogi. Mae strategaeth VAWDSV 2022-2026 yn nodi'r camau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i gynyddu cefnogaeth i oroeswyr, dod â throseddwyr o flaen eu gwell, ac, yn y pen draw, lleihau nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched. Y nod yw darparu a monitro strategaeth VAWDASV drwy Fwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, a byrddau Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Rhanbarthol.

Galwodd adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2022 am fwy o fanylion ynghylch sut roedd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'i is-grwpiau yn gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â gweithio amlasiantaethol (Llywodraeth Cymru, 2022). Cydnabuwyd bod angen gwneud mwy i ddarparu dulliau ariannu cyson, mwy o rannu data, a gwasanaeth mwy llyfn ar gyfer dioddefwyr.

## Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Strategaeth draws-lywodraethol yw Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sy'n gosod y nodau ar gyfer gwella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Roedd y cynllun cyflawni ar gyfer 2019-2022 yn pwysleisio ymyrraeth gynnar i atal pobl rhag dod i gysylltiad â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a'r angen am weithio amlasiantaethol gwell. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol i weithio gyda Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, i ddarparu gwasanaethau a rhaglenni i wella iechyd meddwl a lles.

Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Cwm Taf Morgannwg sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn CTM. Mae dau is-grŵp o dan y Bwrdd, sef yr is-grŵp Plant a Phobl Ifanc a'r is-grŵp Oedolion.

## Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022. Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng nghyfnod 2019-22. Y saith Bwrdd Cynllunio Ardal ledled Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau lleol rheng flaen yn eu rhanbarthau perthnasol. Gan ddefnyddio'r cyllid a dyrennir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Byrddau Cynllunio Ardal yn gyfrifol am asesu angen ac am gomisiynu a monitro darpariaeth gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn eu rhanbarthau. Nodwyd bod gwaith partneriaeth da rhwng Byrddau Cynllunio Ardal a strwythurau rhanbarthol eraill, fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn elfen hanfodol o ddarpariaeth gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn y Cynllun. Un o feysydd blaenoriaeth allweddol y Cynllun yw cryfhau gweithio amlasiantaethol i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu (Llywodraeth Cymru, 2019).

## Crynodeb: tirlun polisi a deddfwriaethol cymhleth

Mae'r fframwaith deddfwriaethol, cyllid a pholisi cenedlaethol wedi arwain at ddatblygu ystod o fyrddau strategol â chylchoedd gwaith sy'n gorgyffwrdd i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed, megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Diogelu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru (2021) yn cydnabod hyn ond wedi caniatáu i ranbarthau ddatblygu

diffiniadau lleol o wahanolrwydd a / neu feysydd ar gyfer cydweithio ar draws y partneriaethau strategol hyn.

Mae rhai o'r fframweithiau deddfwriaethol a strategaethau eraill wedi'u dylunio'n benodol i fynd i'r afael â gwahanol ffactorau y mae'n hysbys eu bod yn golygu y bydd plant yn fwy tebygol o fod angen gofal, gan gynnwys problemau cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a iechyd meddwl ymhlith rhieni a gofalwyr. Mae Tabl 1 yn dangos nifer y grwpiau, yr is-grwpiau, y byrddau rhaglen a'r byrddau partneriaeth a grëwyd i ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed ar draws y strwythurau Bwrdd Partneriaeth Rhaglen a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn CTM. Mae asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed yng Nghwm Taf Morgannwg, a mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru, yn gweithredu mewn tirlun hynod o gymhleth. Mae'n rhaid i deuluoedd a phlant sy'n agored i risg ymdrin â sawl gwahanol asiantaeth i fynd i'r afael â'u hanghenion.

## Tabl 1: Grwpiau rhanbarthol sy'n gweithio yng Nghwm Taf Morgannwg

| | | |
|---|---|---|
| ***Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol*** | | |
| **Bwrdd Arweinyddiaeth Integredig** | | |
| **Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Oedolion** | **Bwrdd Rhaglen Trawsbynciol** | **Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Plant**<br>Blaenoriaeth Ranbarthol 1: Ymagwedd Integredig tuag at Lety Diogel<br>Is-grŵp 1: Llety Preswyl Integredig<br>Is-grŵp 2: Grŵp Gofal Parhaus<br>Is-grŵp 3: Gwasanaeth Therapi MAPSS<br>Blaenoriaeth Ranbarthol 2: Dull Integredig o Hyrwyddo Gwydnwch Emosiynol a Chorfforol<br>Is-grŵp 4: Lles Emosiynol - Gweithredu Fframwaith Cymorth a Chefnogaeth Gynnar/NEST<br>Is-grŵp 5: Datblygu Teclyn Cyfathrebu MUSE |
| **Bwrdd Diogelu** | | |
| **Grŵp Sicrhau Ansawdd MARAC** | **Pwyllgor Gweithredu MASH**<br>Is-Grŵp Sicrhau Ansawdd MASH (MAQA) | **Cyd-bwyllgor Gweithredol**<br>Grŵp Adolygu ar y Cyd<br>Grŵp Amlasiantaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)<br>Is-grŵp Sicrhau Ansawdd Plant (QASG)<br>Is-grŵp Dysgu ac Addysgu (TALG)<br>Is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chyfathrebu |
| ***Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*** | | |
| **Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**<br>Is-grŵp Iechyd Meddwl Oedolion<br>Is-grŵp Iechyd Meddwl Plant | **Bwrdd Trawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar** | **Bwrdd Partneriaeth Strategol**<br>Bwrdd Cynllunio Ardal<br>Is-grŵp Camddefnyddio Sylweddau<br>Swyddogion Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>Partneriaeth Ranbarthol a Strategol VAWDASV CTM<br>Grŵp Llywio VAWDASV<br>Bwrdd Partneriaeth Troseddau Difrifol a Threisgar<br>Bwrdd CONTEST<br>Grŵp Cyflenwi Cynnyrch<br>Grŵp Parodrwydd Diogelwch Amddiffynnol<br>Grŵp Cydlyniad Cymunedol<br>Bwrdd Rheoli Troseddwyr |

# Aeddfedrwydd gweithio amlasiantaethol yn CTM

Defnyddiwyd y 'Matrics Aeddfedrwydd' fel fframwaith i archwilio sut mae gweithio amlasiantaethol yn gweithredu yn CTM o ystyried y tirlun deddfwriaethol a pholisi cymhleth hwn. Cynhaliwyd gwiriad synnwyr o ganfyddiadau'r adolygiad desg drwy drafodaethau anffurfiol gyda'r rhai sy'n rhan o'r gwaith o gydlynu a darparu gwasanaethau, a gofynnwyd am adborth gan y Bwrdd Plant. Cyflwynwyd y canfyddiadau i gyfranogwyr y gweithdai ac fe aethant ati i'w datblygu ymhellach.

Nodwyd rhai pocedi nodedig o weithio amlasiantaethol llwyddiannus. Mae perthnasau sefydledig a thystiolaeth o weithio mewn partneriaeth (e.e. MASH ac EYITP); tystiolaeth o hyfforddi ar y cyd (e.e. Rhaglen Hyfforddi Amlasiantaeth a ddatblygwyd gan Is-grŵp Hyfforddi a Dysgu CTMSB); cydgynhyrchu (e.e. Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc); a chydweithio a rhannu gwybodaeth (e.e. Rhaglen Iechyd Gwydnwch a Llesiant). Serch hynny, disgrifiwyd cymhlethdod y tirlun partneriaethau strategol yng Nghymru fel problem barhaol o ran gweithio amlasiantaethol. Nododd y cyfranogwyr feysydd allweddol i'w gwella, er mwyn adeiladu ar lwyddiannau sy'n bodoli. Cyflwynir y rhain o dan themâu'r matrics aeddfedrwydd, sef cynllunio, arwain, cyflawni a gwerthuso.

## Cynllunio

Gwnaeth adborth ar y trefniadau ar gyfer cynllunio system gymorth leol, gan ddefnyddio data ar anghenion y boblogaeth, ac adnoddau ariannol a dynol, amlygu'r canlynol:

1. **Angen am eglurder gan randdeiliaid ynghylch sut mae llywodraethiant strategol rhanbarthol yn gweithredu.** Mae strwythurau partneriaeth cyfredol yn bodoli o ganlyniad i ddeddfwriaeth, polisi, cyllid neu gyfuniad o'r rhain. Dros amser, mae hyn wedi arwain at greu partneriaethau arwahanol ac digyswllt. Nid oedd gan y rhan fwyaf o randdeiliaid ddealltwriaeth glir o'r grwpiau rhanbarthol amrywiol a'u cylchoedd gwaith, na sut mae grwpiau lleol a rhanddeiliaid yn rhyngweithio yng Nghwm Taf Morgannwg. Adroddodd rhai cyfranogwyr nad yw bob amser yn glir bod y strategaethau rhanbarthol sy'n deillio o hyn yn 'siarad' gyda'i gilydd. Roedd amrywiaeth yn y safbwyntiau ynghylch y gwahaniaeth a'r gorgyffwrdd rhwng gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi plant a

theuluoedd; gyda rhai'n awgrymu bod strwythurau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn llai effeithiol gan nad ydynt yn derbyn cyllid fel mae partneriaethau eraill yn ei wneud. Mae meysydd risg uchel yn benodol yn elwa ar gael fframwaith deddfwriaethol cadarn a chlir. Mae gweithdrefnau diogelu cenedlaethol, er enghraifft, yn galluogi ymateb cyson ledled Cymru.

2. **Mae angen darlun mwy cydlynol a chyfredol o angen ar draws y rhanbarth**. Caiff asesiadau rhanbarthol o angen eu gwneud yn aml ar adegau penodol, er enghraifft gall Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a gyflawnir bob pum mlynedd yn unol â deddfwriaeth, ddyddio'n gyflym. Adroddodd y grŵp fod asesiadau rhanbarthol o angen yn cael eu segmentu ar sail gwahanol feysydd polisi a pharthau angen (e.e. diogelwch cymunedol, iechyd meddwl, llesiant), a all annog gweithio mewn seilos. Mae gwahanol ddarnau o ddeddfwriaethau yn amlinellu sut mae gofyn i gyrff partneriaeth sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun i arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd, fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Serch hynny, nid yw'n glir pa mor effeithiol mae cronfeydd cyfun wedi bod yn ymarferol.
3. **Nid oedd yn glir a oes safbwynt a rennir ar y lefel ranbarthol ynghylch y gweithlu presennol a'r cytundeb partneriaeth ar gyfer cynllunio'r gweithlu.** Mae llawer o wasanaethau ar y lefel leol yn dibynnu ar gylchoedd ariannu blynyddol sy'n golygu bod rheoli'r gweithlu'n heriol.

## Arwain

Gwnaeth yr adborth ar sut caiff strategaeth leol ei gyrru gan drefniadau partneriaeth strategol a sut mae'r gymuned leol yn rhan o hyn amlygu:

1. **Pocedi nodedig o weithio amlasiantaethol llwyddiannus.** Tynnwyd sylw at MASH ac EYITP, ac roedd tystiolaeth o hyfforddi ar y cyd (e.e. y Rhaglen Hyfforddi Amlasiantaeth a ddatblygwyd gan Is-grŵp Dysgu ac Addysgu CTM); cydgynhyrchu (e.e. Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc); a chydweithio a rhannu gwybodaeth (e.e. Rhaglen Iechyd Gwydnwch a Llesiant).
2. **Ymdrechion i ddiffinio gweithio mewn partneriaeth mewn fframweithiau deddfwriaethol amrywiol** gyda rhai'n amlinellu mecanweithiau ar gyfer cronfeydd cyfun ac eraill yn amlinellu sut gellir dirprwyo swyddogaethau. Mae unigolion mewn asiantaethau yn mynychu cyfarfodydd gwahanol grwpiau er mwyn ceisio ysgogi cydweithio ar draws strwythurau rhanbarthol. Serch hynny, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai hyn fod yn fwy systematig. Roedd adroddiadau ynghylch 'gormod o bartneriaethau' a 'gormod o gyfarfodydd', ac adroddodd partneriaid y gellid gwella'r ffordd y defnyddir adnoddau'n effeithlon i annog gwell effeithiolrwydd mewn partneriaethau.

3. **Dryswch ynghylch y tirlun rhanbarthol a rôl y rhanbarth.** Y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol i wella darpariaeth gwasanaethau, gofal a chymorth, ond mae diffyg eglurder ynghylch sut i reoli cyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd rhwng gwahanol fyrddau yn y rhanbarth. Adroddir bod hyn yn tanseilio atebolrwydd ar gyfer penderfyniadau, gan ystyried bod partneriaethau'n cymylu cyfrifoldeb.
4. **Enghreifftiau cadarnhaol o berchnogaeth gymunedol a deialog barhaus rhwng cymunedau a rhai gwasanaethau,** ond mae rhywfaint o densiwn rhwng y gwaith a wneir gyda chymunedau ar lawr gwlad a'r prosesau o'r brig i'r gwaelod ar lefel ranbarthol. Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyd-bartneriaid yn y gwaith o ddatblygu'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth, a oedd yn cynnwys '100 diwrnod o ymgysylltu' gyda'r cyhoedd, a chydnabyddir Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM fel maes o arfer da cydnabyddedig ar gyfer cydgynhyrchu ac ymgysylltu. Serch hynny, nodwyd y gall data rhanbarthol wrthdaro â phrofiadau lleol.

## Cyflawni

Gwnaeth adborth ar sut caiff gwasanaethau gweithredol eu darparu a'u trefnu mewn modd cydlynol i ddarparu cymorth effeithiol i deuluoedd amlygu:

1. **Rhai enghreifftiau o wasanaethau ac ymagweddau amlasiantaethol clodwiw**, **ond roedd hefyd adroddiadau nad yw'r rhain wedi'u gwau i mewn i un system gydlynol; a'u bod yn fregus** (e.e. yn ddibynnol ar gyllid grant; a ddim yn cael eu hystyried yn fusnes 'craidd' gan y rhanbarth). Roedd adroddiadau am waith sy'n mynd rhagddo i edrych ar ddarpariaeth ranbarthol o wasanaethau ac ymyriadau ar sail tystiolaeth, ond yn lleol y darperir hyn ar hyn o bryd, ac nid yn rhanbarthol. Caiff y rhan fwyaf o wasanaethau ac ymyriadau eu gwerthuso'n lleol, gyda'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru; mae cyfyngiadau o ran adnodd a chapasiti sy'n effeithio ar y gallu i wneud hyn yn dda.
2. **Y potensial i wella darpariaeth trefniadau rhannu gwybodaeth.** Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn amlinellu gofynion o ran rhannu gwybodaeth, gan gynnwys defnydd o dechnoleg a systemau a rennir. Rhannwyd enghreifftiau lle mae CTM wedi datblygu llwybrau integredig yn seiliedig ar ddarlun consensws o angen a'r defnydd o ymagweddau amlasiantaethol clodwiw e.e. Teuluoedd Cydnerth. Serch hynny, nid yw'r ymateb i'w weld yn gyson ar draws y rhanbarth ac mae asesiadau 'digonolrwydd' gwasanaethau un ai'n digwydd mewn seilos mewn gwasanaethau unigol neu ddim yn digwydd o gwbl. Gall hyn arwain at wahanol grwpiau'n trafod yr un teulu dro ar ôl tro. Roedd cydnabyddiaeth

ymhlith rhanddeiliaid bod angen mynd i'r afael â phethau yn wahanol a chydweithio mewn modd cydgynhyrchiol. Serch hynny, gall capasiti a phrinder staff, ar y cyd â dibyniaeth ar symiau bach o gyllid grant, wneud pethau'n anodd ar adegau i grwpiau rhanbarthol.

## Gwerthuso

Roedd adborth cyfranogwyr ar sut caiff cynnydd mewn canlyniadau ei fesur, sut brofiad yw'r cymorth o safbwynt teuluoedd, a sut mae partneriaid lleol yn defnyddio ac yn cynhyrchu tystiolaeth, yn awgrymu:

1. **Nid yw gwybodaeth sy'n llifo o'r lefel ranbarthol bob amser yn hawdd ei throsi i welliannau mewn gwasanaethau ar lefel leol.** Trafododd rhanddeiliaid y nifer o gyfarfodydd rhanbarthol maen nhw'n mynd iddynt a'r ffaith eu bod yn aneglur ynghylch cynnydd neu ganlyniadau mewn perthynas â'u gwaith lleol.
2. **Buddsoddiad sylweddol mewn rhannu data ar lefel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond mae grwpiau rhanbarthol yn adrodd nad yw'r data bob amser yn cael ei ddadansoddi yn ei gyfanrwydd i gael darlun cyffredinol o effaith mentrau.** Gellir adrodd ar ddata a'i ddeall mewn llinellau atebolrwydd lleol a rhanbarthol, sy'n adlewyrchu adrannau Llywodraeth Cymru, er enghraifft data perfformiad am raglenni a ariennir gan y llywodraeth, neu ddata sy'n ymwneud â deddfwriaeth benodol, er enghraifft diogelu.
3. **Mae'r rhanbarth yn dal i fod ar gam aeddfedrwydd cynnar, gan ddefnyddio data fel ffynhonnell ddeallusrwydd i siapio'r gwaith o ddylunio gwasanaethau a darparu a monitro canlyniadau**. Cydnabuwyd bod ymdrechion lleol a rhanbarthol wedi'u cyfeirio at fonitro data mewn perthynas â mentrau'r Llywodraeth. Teimlwyd bod llai o amser ar gyfer defnyddio data i ddeall y cyd-destun lleol ym mhob ardal yn seiliedig ar ddata asesiad anghenion y boblogaeth, profiad proffesiynol a theuluoedd, a chysylltu'r wybodaeth hon â thystiolaeth ymchwil.

# Materion blaenoriaeth yn CTM

Nod y gweithdy cyntaf oedd nodi meysydd blaenoriaeth i randdeiliaid lleol a rhanbarthol. Trafododd ugain o randdeiliaid o faes gwasanaethau cymdeithasol, diogelu, diogelwch cymunedol, yr heddlu, y trydydd sector, a'r bwrdd iechyd, y 'darlun' o weithio rhanbarthol a gyflwynwyd uchod, a chytunwyd ar bedwar maes blaenoriaeth:

1. **Cyd-arweinyddiaeth a chyd-weledigaeth ar draws y strwythurau rhanbarthol**
2. **Eglurder o rôl briodol y gwahanol gyrff perthnasol**
3. **Yr amser a'r adnoddau i wneud perchnogaeth gymunedol yn dda;**
4. **Cyd-ddealltwriaeth o'r angen ar draws awdurdodau lleol**

Mireiniwyd y rhain ymhellach yn ystod yr ail weithdy, lle roedd 14 o gynrychiolwyr yn bresennol, o'r maes iechyd, cyd-gomisiynu, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, yr heddlu, a thri awdurdod lleol. Adroddwyd bod angen cyd-arweinyddiaeth a chyd-weledigaeth i fynd i'r afael â diffyg eglurder o gwmpas rolau a chyfrifoldebau ar draws partneriaid yn CTM. Felly, cyflwynir y ddwy flaenoriaeth gyntaf gyda'i gilydd.

## Cyd-arweinyddiaeth a chyd-weledigaeth ac eglurder ynghylch rolau priodol y gwahanol gyrff rhanbarthol

Adroddodd cyfranogwyr yn y ddau weithdy, a oedd yn gweithio ar lefelau lleol a rhanbarthol, yr angen i nodi a chyfleu strategaeth ranbarthol yn fwy clir. Mae angen eglurder o gwmpas blaenoriaethau a rennir a llywodraethu ar draws y rhanbarth, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r nodau partneriaeth strategol a'r trefniadau yn y tirlun gwleidyddol a deddfwriaethol cymhleth. Heb weledigaeth glir, mae cyd-arweinyddiaeth ar draws yr ôl-troed rhanbarthol, gan gynnwys y trydydd sector, yn heriol.

Roedd trafodaethau yn y gweithdy yn awgrymu bod diffyg eglurder ynghylch priod rolau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yr ystyriwyd eu bod yn gorgyffwrdd, a'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru. Teimlwyd bod strategaeth a methodoleg o gwmpas gweithio amlasiantaethol ar gyfer plant yn strwythurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond nad yw hynny'n gysylltiedig â'r bensaernïaeth ranbarthol ehangach. Adroddodd y cyfranogwyr bod angen eglurder ynghylch beth ddylai fod yn digwydd yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, a'r meinwe cysylltiol rhwng y lefelau hyn. Roedd y cyfranogwyr a oedd yn gweithio yn ardaloedd yr awdurdod lleol yn cael trafferth cyfleu beth yw rôl y rhanbarth wrth gymunedau.

Cydnabuwyd bod gwahaniaethau rhwng Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf o ran blaenoriaethau, oherwydd y gwahaniaethau o ran graddfa, demograffeg ac anghenion. Adroddodd y cyfranogwyr fod angen i'r cyfathrebu â staff gweithredol fod yn fwy cadarn i sicrhau dealltwriaeth glir o ran y blaenoriaethau. Mae hefyd angen gwahaniaethu rhwng digonolrwydd y gweithlu ar draws yr awdurdodau lleol, gyda phrinder gweithlu sydd wedi'i nodi ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda

Cynon Taf yn unol â phrinder cenedlaethol, ond nid cymaint ym Merthyr Tudful. Teimlwyd bod ymrwymiad traws-ranbarthol i atal yn gynnar, ond ei bod yn anodd cynnal y biblinell o weithwyr er mwyn adeiladu capasiti lleol.

Adroddwyd bod ansicrwydd ariannu yn eu rhwystro rhag gallu datblygu cyd-weledigaeth fwy hirdymor ar gyfer gweithio amlasiantaethol yn CTM, yn enwedig mewn perthynas â datblygu a chynnal y gweithlu. Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn sicr a fyddan nhw'n cael cyllid ar gyfer y flwyddyn ganlynol, sy'n eu rhwystro rhag cynllunio'n hirdymor o gwmpas blaenoriaethau lleol a rhanbarthol a nodwyd. Mae hefyd yn arwain at gyflogaeth ansicr a staff yn chwilio am gyfleoedd eraill ar draws y rhanbarth, gan ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol gadw staff profiadol.

Adroddodd y grŵp yn gadarnhaol am raglen gweithgarwch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a ddatblygwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cychwynnwyd y rhaglen hon mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Chymru Iachach. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu modelau allweddol integredig o ofal fel rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd cydnabyddiaeth yn y gweithdy nad oedd y gwaith hwn yn cynnwys angen ar draws ôl-troed cyfan Cwm Taf Morgannwg. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol wrth feddwl am flaenoriaethau penodol iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer grwpiau cymhleth.

Adroddwyd y gallai blaenoriaethau arweinyddiaeth gyfeiriadu darpariaeth o gwmpas canlyniadau i deuluoedd a chymunedau ledled rhanbarth CTM yn ehangach na rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd un o'r blaenoriaethau arweinyddiaeth a gynigiwyd yn y sesiwn yn cynnig datblygu ymateb mwy integredig i'r triawd tocsig (cam-drin domestig, salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau) a datblygu modelau cymorth newydd o gwmpas y tri maes croestoriadol. Ar hyn o bryd, gellid ystyried bod y ddarpariaeth yn eithaf tameidiog, a allai egluro pam fod anghenion rhai teuluoedd yn cael eu trafod droeon ar draws grwpiau strategol.

Roedd cydnabyddiaeth bod gweithio mewn partneriaeth ar y lefel ranbarthol yn cymryd amser ac ymrwymiad. Cyflawnir llawer o rolau arwain ar y lefel hon gan unigolion y mae eu prif rôl arweinyddiaeth strategol o fewn un o'r tri awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd. Adroddwyd bod cydbwyso ymrwymiadau ar lefelau rhanbarthol a lleol yn heriol.

## Amser ac adnoddau i wneud cyfranogiad y gymuned yn dda

Darparwyd sawl enghraifft o gyfranogiad cymunedol yng Nghwm Taf Morgannwg. Ar lefel ranbarthol, mae rôl ddynodedig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, gyda chapasiti ac adnoddau i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ac i sefydlu cysylltiadau gyda phobl mewn cymunedau. Roedd yr Hacathon rhanbarthol yn defnyddio cerddoriaeth, celf a chreadigrwydd wrth ymgysylltu â phobl ifanc, gan nodi ystod eang o flaenoriaethau posibl a arweinir gan y gymuned, a theimlwyd y gellid adeiladu ar yr arfer da hwn a'i ymestyn yn ehangach. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol hefyd wedi datblygu dull o ymgysylltu â'r gymuned sydd wedi bod yn ddefnyddiol, ond gall fod yn feichus o ran amser ac yn gyfyngedig i feysydd penodol o angen. Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth hefyd yn casglu data ar brofiad byw mewn cymunedau lleol, gyda'r nod o lywio'r cynllun ar gyfer y rhanbarth wrth symud ymlaen. Ar y lefel leol, roedd yn ymddangos bod gwaith ymgysylltu â'r gymuned gan fforymau ieuenctid yr Awdurdodau Lleol, ysgolion arbennig a chynghorau ieuenctid yn darparu dysgu defnyddiol am wahanol fethodolegau.

Adroddwyd hefyd am heriau amrywiol sy'n gysylltiedig â chynnwys cymunedau, gan gynnwys diffyg adnoddau i ddatblygu strategaethau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a chydgynhyrchu, sy'n aml yn feichus o ran amser ac adnoddau. Adroddodd cyfranogwyr y gweithdy eu bod yn cael trafferth casglu safbwyntiau teuluoedd a'r gymuned, ac ymddengys bod y safbwynt rhanbarthol yn rhy bell o brofiadau ymarferwyr a theuluoedd ar lawr gwlad. Awgrymwyd bod angen i strategaeth ranbarthol gael ei llywio gan drawstoriad llawer ehangach o randdeiliaid, ochr yn ochr â byrddau strategol a rhanbarthol. Dylid datblygu strategaethau rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu ac ymwneud cymunedol gan ystyried capasiti, amser a chyllidebau Awdurdodau Lleol.

Adroddodd cynrychiolwyr iechyd fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n deillio o waith ymgysylltu â chymunedau yn ddibynnol ar berthnasau unigol (e.e. gwybod pwy sydd wedi casglu'r wybodaeth), yn hytrach na bod strwythur cadarn ar gyfer rhannu hyn a methodoleg cyson ar gyfer ymgysylltu. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod angen i ddatblygu 'cymuned ymarfer' o gwmpas y gwaith hwn lle mae dull cyson ledled y system ar gyfer Cwm Taf Morgannwg y gall unrhyw bartner ar unrhyw lefel ei ddefnyddio. Adroddodd cyfranogwyr fod angen datblygu dulliau ymgysylltu i wella cyfranogiad y gymuned, a dull cydlynol gyda'r trydydd sector a'r sector iechyd i oresgyn heriau adnoddau a chapasiti yn y maes hwn.

Adroddodd cyfranogwyr fod ymgysylltiad fel arfer yn cael ei gyflawni gan unigolion o fewn sefydliadau sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd yn y maes hwn, a gwerthfawrogir y gwaith yn fawr. Roedd angen neilltuo amser i allu cydlynu blaenoriaethau o weithgareddau ymgysylltu a sicrhau bod cynlluniau rhanbarthol yn cael eu harwain gan anghenion y boblogaeth a'u bod yn gynrychioliadol. Cydnabuwyd y dylid ystyried

amseru a gwasgaru gwaith ymgysylltu er mwyn osgoi gorlethu chymunedau, yn ogystal ag eglurhad ynghylch pwy sydd â'r sgiliau priodol i wneud y gwaith ac sy'n gallu olrhain dros amser.

### Cyd-ddealltwriaeth o'r angen ar draws awdurdodau lleol

Adroddodd cyfranogwyr angen am ddata amserol a defnyddiol i lywio penderfyniadau o fewn ac ar draws y rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn digwydd bob pum mlynedd, ac yn cael ei gasglu ar lefel ranbarthol. Adroddodd y cyfranogwyr os nad yw'r fethodoleg ar gyfer cynnal Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn gywir, gall gynyddu gweithio mewn seilos. Yn ogystal, os na rhoddir digon o amser, nid yw dysgu a newid yn cael ei wreiddio'n llawn mewn gwasanaethau. Adroddodd y cyfranogwyr fod 'Pocedi o arbenigedd, ffasiynau o ymagweddau yn hytrach na methodolegau wedi'u gwreiddio.' Mynegwyd angen i gytuno ar fethodoleg a diben fel bod y strategaeth ranbarthol yn seiliedig ar safbwyntiau'r gymuned, y staff ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth bob pum mlynedd. Byddai hefyd angen cynnal ymagwedd newydd sy'n ymgorffori'r syniadau hyn dros amser i weld ymdrechion parhaus.

Adroddodd darparwyr gwasanaethau lleol eu bod yn aml yn defnyddio'r data poblogaeth rhanbarthol ochr yn ochr â data ansoddol i gael darlun mwy cyfannol o'r ystod o angen yn eu hawdurdod lleol. Serch hynny, disgrifiodd cyfranogwyr densiwn rhwng y data ar brofiadau lleol a'r data rhanbarthol. Nid oedd cyfranogwyr yn deall yn glir sut i gysoni'r gwahaniaethau rhwng data lleol a rhanbarthol, a gofynnwyd am eglurder ynghylch ystod a manylder y data a gesglir yn ogystal ag ystyriaeth o grwpiau wedi'u hymyleiddio. Adroddwyd nad yw cylchred pum mlynedd Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn helpu ardaloedd lleol i fynegi'r darlun lleol i fyrddau rhanbarthol mewn amser go iawn, yn enwedig pan mae newidiadau sylweddol, fel pandemig COVID. Nodwyd yr angen am storfa ganolog i storio data mewn un lle fel uchelgais, gyda phwyntiau amser cytunedig yn y gylchred 5 mlynedd ar gyfer casglu ac adolygu data.

Adroddwyd her wrth gasglu data mewn amser go iawn. Adroddodd y cyfranogwyr hefyd angen i ddata gael ei symleiddio a'i gyfeirio'n fwy at anghenion plant a theuluoedd. Ystyriwyd y byddai gwella'r gwaith o gasglu data yn galluogi monitro tueddiadau yn y dyfodol ac yn hwyluso dysgu a datblygu yn ehangach y tu hwnt i raglen gyfredol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, yn ogystal â diwallu anghenion prosiectau a ariennir gan y llywodraeth.

# Nodi datrysiadau rhanbarthol

Defnyddiwyd yr ail weithdy i adeiladu argymhellion am sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd. Roedd y sesiwn wedi'i strwythuro i alluogi cyfranogwyr i glywed am y themâu allweddol, ac yna rhannu'n ddau grŵp llai i drafod datrysiadau posibl y byddai modd eu gweithredu yn rhanbarth CTM. Cyflwynwyd tri datrysiad mewn perthynas â'r materion a nodwyd:

1. **Datblygu trefniadau partneriaeth a strategaeth gysylltiedig ymhellach ar gyfer plant a theuluoedd sy'n agored i niwed;**
2. **Datblygu methodoleg gyson ar gyfer ymwneud ac ymgysylltiad y gymuned;**
3. **Datblygu dull mwy cydlynol er mwyn deall angen.**

Mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fanylach isod. Mae pob adran yn cynnwys rhestr o gamau gweithredu arfaethedig.

## Datblygu trefniadau partneriaeth strategol a strategaeth gysylltiedig ar gyfer plant mewn perygl

Er y codwyd materion llywodraethu ac atebolrwydd yn y ddau weithdy, nid oedd llawer o awydd am adolygiad llywodraethu. Yn hytrach, roedd y cyfranogwyr yn awyddus i gyrff rhanbarthol ganolbwyntio ar y canlynol:

- creu gwell defnydd o anghenion y boblogaeth ar draws yr ôl-troed;
- rhannu cyfathrebu rhwng partneriaid a negeseuon i deuluoedd;
- nodi trefniadau comisiynu partneriaethau mwy clir drwy ddatblygu llwybrau integredig; a
- hygyrchedd plant a theuluoedd (daearyddol a nodweddion gwarchodedig), atal, canlyniadau, a'r effaith weithredol a gyflawnwyd drwy gyfuno adnoddau.

Cyflwynwyd gwahanol syniadau ynghylch sut i gyfeirio trefniadau partneriaethau strategol yn fwy effeithiol o gwmpas canlyniadau i deuluoedd a chymunedau. Un o'r dulliau a gynigiwyd ar gyfer gwneud hyn oedd trefnu partneriaethau gan ddefnyddio'r 'model enfys' (Llywodraeth Cymru 2017). Gallai mapio'r ddarpariaeth ar gyfer plant 'mewn perygl' roi dealltwriaeth fwy clir o'r continwwm o wasanaethau rhanbarthol a ddarperir, yn amrywio o atal hyd at gymorth haen arbenigol, bylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â dealltwriaeth o sut mae pob un o'r gwasanaethau'n cael eu comisiynu a'u rheoli. Adroddodd cyfranogwyr y gallai gwasanaethau mapio ar yr enfys hefyd gynnig cyfleoedd i edrych ar sut gallai mentrau a ariennir gan y Llywodraeth, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, gyd-fynd â gwasanaethau

wedi'u comisiynu'n lleol i ddatblygu darpariaeth fwy di-dor. Gallai hyn hefyd greu cyfleoedd i gynyddu maint y prosiectau a ariennir ar draws yr ôl-troed lle nodir bylchau. Un awgrym arall oedd datblygu ymateb mwy integredig i'r triawd tocsig (cam-drin domestig, salwch meddwl, a chamddefnyddio sylweddau) a datblygu modelau cymorth newydd o gwmpas y tri maes croestoriadol hwn.

**Camau gweithredu posibl ar gyfer partneriaethau a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdy:**

- Gwella cyd-gyfathrebu a phartneriaethau o gwmpas blaenoriaethau rhanbarthol.
- Egluro trefniadau llywodraethu rhyng-gysylltiedig ar draws yr ôl-troed rhanbarthol cyfan a'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru.
- Datblygu trefniant partneriaeth clir ar draws y rhanbarth, sy'n ehangach na'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n ystyried cynrychiolaeth a chyfrifoldebau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n atebol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, diogelwch cymunedol a byrddau partneriaeth lleol.
- Datblygu trefniadau llywodraethu a phartneriaeth o gwmpas y triawd tocsig gan sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth wedi'i threfnu a'i hintegreiddio o gwmpas y blaenoriaethau hyn.
- Mae angen i unrhyw newidiadau mewn trefniadau llywodraethu fod â pherthynas glir gyda sut caiff gwasanaethau eu trefnu a'u darparu yn weithredol.
- Trefnu caffael a'i lywodraethu ar draws yr ôl-troed cyfan o gwmpas blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Cyd-gynhyrchu meysydd blaenoriaeth gydag ystod eang o bartneriaid gan gysoni strwythurau llywodraethu o'u cwmpas i fonitro ansawdd, darpariaeth ac effeithiolrwydd.
- Cyfuno adnoddau fel bod gwasanaethau wedi'u hintegreiddio a'u darparu i greu canlyniadau a rennir.

## Datblygu methodoleg cyson ar gyfer ymwneud ac ymgysylltu â'r gymuned

Dywedodd cyfranogwyr y gweithdy fod angen adeiladu a datblygu y gwaith da sydd eisoes yn digwydd ymhellach o ran ymwneud ac ymgysylltu â chymunedau. Byddai dull mwy cydlynol a chydgysylltiedig yn gwneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig. Disgrifiodd y cyfranogwyr yr angen i neilltuo amser i allu cydlynu blaenoriaethau o weithgarwch ymgysylltu ac i sicrhau bod cynlluniau rhanbarthol yn cael eu harwain gan anghenion y boblogaeth a'u bod yn gynrychioliadol.

Cydnabuwyd y dylid ystyried amseru a gwasgaru gwaith ymgysylltu er mwyn osgoi gorlethu chymunedau, yn ogystal ag eglurhad ynghylch pwy sydd â'r sgiliau priodol i wneud y gwaith ac sy'n gallu olrhain dros amser.

Adroddodd y cyfranogwyr fod y trydydd sector mewn sefyllfa dda i geisio ymgysylltiad ac adborth dilys gan gymunedau yr ystyrir eu bod yn 'anodd eu cyrraedd'. Roedd mudiadau'r trydydd sector yn y trafodaethau grŵp yn awyddus i gefnogi'r gwaith hwn. Adroddodd cynrychiolwyr o'r trydydd sector eu bod mewn sefyllfa dda i weithio ar ran y bartneriaeth gyda phoblogaethau lleol penodol neu ar lefel ranbarthol. Maent yn hyderus yn defnyddio dulliau systematig ar gyfer ymgysylltu, chwilio am fylchau a chefnogi cyd-ddealltwriaeth ar draws partneriaid.

**Camau gweithredu posibl ar gyfer ymwneud ac ymgysylltu â'r gymuned a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdy:**

- Cynnwys arbenigedd y trydydd sector ac addasu iaith ranbarthol fel eu bod yn teimlo wedi'u cynnwys.
- Mae angen i'r fethodoleg fod wedi'i seilio ar arfer da rhanbarthol, er enghraifft yr Hacathon, fforymau ieuenctid Awdurdodau Lleol, gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion arbennig, a gwaith cynghorau ieuenctid.
- Mae angen i'r holl bartneriaid yn y rhanbarth ddefnyddio methodoleg strwythuredig, cytunedig a chyson er mwyn ymgysylltu â'r gymuned.
- Mae angen dull cymuned ymarfer ledled y rhanbarth ar gyfer ymgysylltu, a ddefnyddir yn gyson ac yn gynhwysol ar draws y rhanbarth, nid yn unig o fewn cylch gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Ar ôl datblygu'r dull ymgysylltu, mae angen digon o amser ar gyfer cyflawni, dadansoddi, deall/cyfosod a monitro. Mae angen i'r rhanbarth deimlo'n hyderus yn gwneud hyn, er gwaethaf amserlenni'r Llywodraeth. Mae angen cytuno ar amlder yr ymgysylltu er mwyn osgoi 'gorlethu' cymunedau a phartneriaid lleol.
- Mae angen i newidiadau a datblygiad strategaeth ranbarthol gael eu llywio gan wybodaeth allbwn a gasglwyd gan y gymuned a phartneriaethau.

## Datblygu dull mwy cydgysylltiedig er mwyn deall angen

Mae angen data lleol a rhanbarthol mwy amserol, yn ogystal ag Asesiad Anghenion y Boblogaeth bob pum mlynedd, i lywio strategaeth leol a rhanbarthol. Mynegodd y grŵp yr angen am ystod o ddulliau ar gyfer casglu data sy'n ymgorffori canfyddiadau ymchwil, data sefydliadol, data poblogaeth, profiad byw a gwybodaeth broffesiynol.

Mae angen cydlynu a chanoli'r data a gesglir ar draws y rhanbarth. Byddai canoli casglu data yn rhoi cyfleoedd i ddadansoddi a thriongli, a dealltwriaeth ddyfnach o'r darlun rhanbarthol. Yna, gellid trosi llif gwell o wybodaeth ar draws y rhanbarth i ddatblygu canlyniadau ystyrlon mwy byr dymor a hirdymor, y gellid eu monitro. Byddai hyn yn ehangu dealltwriaeth y tu hwnt i adrodd am gyflawniadau prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Byddai data demograffig mwy clir yn caniatáu i bartneriaid ddeall eu cyd-destun rhanbarthol yn well ac, yn ei dro, defnyddio'r wybodaeth hon wrth wneud ceisiadau am gyllid. Dywedodd cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod y broses hon yn digwydd i'r gwrthwyneb ar hyn o bryd, lle gwneir achos busnes am gyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal neu i wella lefelau staffio ar sail tymor penodol, ond efallai nad dyna yw'r brif flaenoriaeth o ran anghenion y boblogaeth o reidrwydd. Gall hyn arwain at orlwytho'r gweithlu pan mae ymarferwyr yn cyflawni gwaith achos busnes fel arfer, yn ogystal â chyflawni gofynion rhaglen y llywodraeth. Yna, gallai defnydd mwy o effeithlon o Asesiad Anghenion y Boblogaeth lywio ceisiadau yn well i leihau'r broblem hon.

**Camau gweithredu posibl ar gyfer cynyddu cyd-ddealltwriaeth o angen a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdy**

- Mae angen cytuno ar y data a gesglir gan ystod ehangach o randdeiliaid (gan gynnwys grwpiau wedi'u hymyleiddio) o ran yr hyn sydd angen ei gasglu, gan bwy, yn unol â pha amserlenni a'r dulliau cyffredin a ddefnyddir gan bawb ar gyfer casglu ac adrodd.
- Mae angen i'r data a gesglir alluogi'r rhanbarth i fonitro tueddiadau dros y tymor byr i'r tymor canolig.
- Mae angen dadansoddwyr data i gefnogi gweithio systemig a chynnal gwaith casglu data cyfredol yn unol ag amserlenni a dulliau y cytunir arnynt, sydd hefyd yn cefnogi dosbarthu ar draws yr ôl-troed.
- Mae angen dull ar gyfer triongli a chyfosod data sy'n cynnwys cynrychiolaeth ehangach o randdeiliaid yn y broses.
- Mae angen i'r darlun rhanbarthol lywio prosiectau Llywodraeth Cymru y mae'r rhanbarth yn gwneud ceisiadau amdanynt, er mwyn sicrhau bod prosiectau a ariennir gan y llywodraeth yn gwella ac yn cefnogi'r bylchau a'r anghenion a nodwyd yn y set ddata ranbarthol.

# Argymhellion

Roedd y canfyddiadau o'r gweithdy cyntaf yn crynhoi safbwyntiau'r cyfranogwyr o ran arferion gweithio amlasiantaethol a chymorth i blant sydd 'mewn perygl' yng Nghwm Taf Morgannwg. Roedd yr allbynnau o'r ail weithdy'n cynnig cyfleoedd i bartneriaid gydweithio a chynhyrchu datrysiadau lefel uchel posibl y gall y Bwrdd Arweinyddiaeth Integredig rhanbarthol eu rhoi ar waith. Mae awgrymiadau ar gyfer camau nesaf y bartneriaeth CTM wedi'u tynnu ynghyd gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd, ac maent wedi'u crynhoi yn Nhablau 2-4. Mae camau gweithredu posibl yn deillio o'r gweithdai; rydyn ni wedi gwneud awgrymiadau o ran ymdrech, effaith, a manteision posibl y rhain, gan dynnu ar ein profiad a'n harbenigedd a'r hyn ddysgon ni o'r gweithdai.

Mae cynllun arfaethedig ar gyfer gweithredu ar gael yn Atodiad C. Mae'r Matrics yn defnyddio 4 cam aeddfedrwydd o lefel sylfaenol i lefel aeddfed o gynnydd. Defnyddir y Matrics Aeddfedrwydd ar lefel leol fel arfer. Datblygwyd y camau nesaf addasedig gan ddefnyddio'r disgrifyddion yn y Matrics. Gellid addasu'r awgrymiadau hyn a'u defnyddio gan arweinwyr a phartneriaid i gynllunio camau gweithredu yn y Bwrdd Arweinyddiaeth Integredig.

## Tabl 2: Camau Gweithredu Arfaethedig - Partneriaeth

| Deilliant | Cam Gweithredu Posibl | Ymdrech (Uchel/ Canolig/ Isel) | Effaith (Uchel/ Canolig/ Isel) | Manteision Posibl |
|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau partneriaeth strategol ar gyfer gweithio amlasiantaethol yn gyrru'r strategaeth ar gyfer plant mewn perygl yn ei blaen. | a) Gwella cyd-gyfathrebu a phartneriaethau o gwmpas blaenoriaethau rhanbarthol. | Canolig | Uchel | Mae grŵp partneriaeth eang a gweithgar yn gyfrifol am strategaeth o gwmpas plant mewn perygl ac yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Mae llywodraethiant o'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn glir ac mae gan bartneriaid gyd-ddealltwriaeth o nodau, perfformiad a'u rôl wrth weithredu.<br><br>Mae proses y cytunwyd arni ar gyfer mynd i'r afael â meysydd tanberfformio.<br><br>Mae gan bartneriaid berthynas weithio effeithiol, gan ddal ei gilydd i gyfrif ac ymddiried yn ei gilydd. Maent yn mynd ati i gyfrannu ac i gymryd rhan mewn trafodaethau partneriaeth, ac yn herio ei gilydd yn adeiladol gan ganolbwyntio ar yr effaith i blant a theuluoedd. |
| | b) Egluro'r trefniadau llywodraethu rhyng-gysylltiedig ar draws yr ôl-troed rhanbarthol cyfan a'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru. | Uchel | Uchel | |
| | c) Datblygu trefniant partneriaeth clir ar draws y rhanbarth sy'n ystyried cyfrifoldebau llywodraethu a chynrychiolaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n atebol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, diogelwch cymunedol a'r byrddau partneriaethau lleol. | Uchel | Uchel | |
| | d) Datblygu trefniadau llywodraethu a phartneriaeth o gwmpas blaenoriaethau cytunedig, er enghraifft y triawd tocsig. Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau cysylltiedig strwythurau rhanbarthol a lleol mewn perthynas â phob blaenoriaeth, gan gynnwys monitro ansawdd, darpariaeth ac effeithiolrwydd. | Canolig | Uchel | |
| | e) Egluro llinellau atebolrwydd a llif gwybodaeth rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a phartneriaethau lleol i sicrhau bod arfer lleol yn adlewyrchu polisi ac i'r gwrthwyneb. | Isel | Uchel | Mae gan grwpiau partneriaeth a nodwyd gyfrifoldeb clir dros ddarparu strategaeth o gwmpas plant mewn perygl. |
| | f) Egluro a mapio'r cylchoedd gorchwyl ar gyfer byrddau rhanbarthol a strategol a grwpiau | Isel | Canolig | Mae partneriaid yn awyddus i rannu cyfrifoldeb, llunio datrysiadau, a gweithredu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | partneriaeth a chyfleu hyn i randdeiliaid ar bob lefel. | | | |

**Tabl 3: Camau Gweithredu Arfaethedig - Ymgysylltu â'r Gymuned**

| Deilliant | Cam Gweithredu Posibl | Ymdrech (Uchel/ Canolig/ Isel) | Effaith (Uchel /Canolig/I sel) | Manteision Posibl |
|---|---|---|---|---|
| Mae methodoleg cytunedig cadarn a chyson ar gyfer ymgysylltu ar draws y rhanbarth.<br><br>Mae dealltwriaeth glir o anghenion y gymuned, sy'n llywio'r strategaeth ranbarthol. | a) Cynnwys arbenigedd y trydydd sector ac addasu iaith ranbarthol fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy. | Isel | Uchel | Mae safbwyntiau teuluoedd yn llywio strategaeth drwy ymgynghori ffurfiol sy'n canolbwyntio ar blant sydd mewn perygl, problemau a nodau.<br><br>Mae teuluoedd yn cyd-ddylunio'r strategaeth ymgysylltu ac yn rhan o'r prosesau comisiynu a chaffael a'r strwythurau llywodraethu lle caiff penderfyniadau am blant eu gwneud. |
| | b) Gwerthuso methodoleg arfer da yn seiliedig ar enghreifftiau arfer da lleol a rhanbarthol e.e. yr Hacathon, fforymau ieuenctid Awdurdodau Lleol, gweithgareddau ymgysylltu ysgolion arbennig a gwaith cynghorau ieuenctid. | Isel | Uchel | |
| | c) Datblygu methodoleg strwythuredig, cytunedig a chyson a ddefnyddir gan bob partner yn y rhanbarth ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. | Uchel | Uchel | |
| | d) Rhannu dull ymgysylltu rhanbarth cyfan a ddefnyddir yn gyson ac yn gynhwysol ar draws y rhanbarth, nid yn unig yng nghylch gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | Uchel | Canolig | |
| | e) Darparu ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys wyneb yn wyneb. | Isel | Canolig | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | f) Datblygu a gwreiddio mecanwaith gwerthuso ac adrodd. | Isel | Canolig | |

### Tabl 4: Camau Gweithredu Arfaethedig - Cyd-ddealltwriaeth o Anghenion

| Deilliant | Cam Gweithredu Posibl | Ymdrech (Uchel/Canolig/Isel) | Effaith (Uchel/Canolig/Isel) | Effaith Bosibl |
|---|---|---|---|---|
| Dull mwy cydgysylltiedig o ddeall anghenion a safbwyntiau y gymuned sy'n ategu data anghenion y boblogaeth. | a) Cytuno ar ddulliau casglu data cyffredin ar gyfer asesu anghenion, gan gynnwys amserlenni a mecanweithiau adrodd gan randdeiliaid ehangach gan gynnwys grwpiau wedi'u hymyleiddio. | Uchel | Uchel | Mae partneriaid yn rhannu asesiad amlasiantaethol o anghenion y boblogaeth. Mae data a gwybodaeth yn dylanwadu ar benderfyniadau a blaenoriaethu ar gyfer plant mewn perygl. |
| | b) Mae arweinwyr rhanbarthol yn dadansoddi data i fonitro tueddiadau dros dymor byr, tymor canolig a'r hirdymor. | Canolig | Uchel | Mae'r Asesiad Anghenion yn nodi blaenoriaethau lleol.<br>Mae'r Asesiad Anghenion yn llywio strategaeth leol. |
| | c) Mae dadansoddwyr data yn cefnogi gweithio systemig, casglu data ar gyfer dadansoddi ac adrodd, gan wneud hyn yn hygyrch ar draws rhanddeiliaid. | Uchel | Uchel | Mae'r Asesiad Anghenion yn llywio ceisiadau am gyllid sy'n gyson ag anghenion lleol.<br>Mae data cyfredol a thriongli tystiolaeth yn galluogi dealltwriaeth o dueddiadau cyfredol. |
| | d) Datblygu dull ar gyfer triongli a chyfosod data gan gynnwys cynrychiolaeth ehangach o randdeiliaid yn y broses. | Canolig | Uchel | Mae cydweithio rhwng partneriaid yn galluogi cylch parhaus o welliant. |

| | | |
|---|---|---|
| e) Sicrhau bod prosiectau Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. | Isel | Uchel |

# Casgliad

Nod yr adroddiad hwn yw cefnogi gweithio amlasiantaethol cydlynol ar lefel leol a rhanbarthol ar draws CTM, drwy ymgysylltu â'r rhai sy'n gweithio mewn rolau lleol a rhanbarthol o gwmpas cryfderau a meysydd allweddol i'w gwella. Mae cyfranogwyr ar draws CTM wedi dangos angerdd mawr i ddarparu'r gwasanaeth gorau i gymunedau ar draws yr ardaloedd lleol a'r rhanbarth. Roedd enghreifftiau niferus o bartneriaid rhanbarthol yn ceisio creu dulliau amlasiantaethol newydd ac arloesol o weithio. Roedd y rhanddeiliaid yn y gweithdai yn gwerthfawrogi'r ymdrechion hyn, ac yn awyddus i fynd ymhellach er mwyn creu gwasanaethau ac ymagweddau amlasiantaethol sydd wedi'u dylunio o gwmpas anghenion a safbwyntiau plant, teuluoedd a chymunedau.

Roedd y grŵp yn cydnabod y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi heriol. Er bod rhai pocedi nodedig o weithio amlasiantaethol wedi'u hamlygu, roedd cymhlethdod y tirlun partneriaethau strategol yng Nghymru yn dylanwadu ar gapasiti i gyflawni gwasanaethau cydgysylltiedig i blant a theuluoedd yng Nghwm Taf Morgannwg. Yn groes i'r nodau polisi datganedig, mae effaith yr amgylchedd deddfwriaethol, polisi ac ariannu a grëwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod gofyn i ranbarthau sefydlu sawl bwrdd rhanbarthol a strwythurau sy'n segmentu agweddau ar angen yn seiliedig ar barth polisi. Yna, mae gofyn i'r rhai sy'n gweithio yn y strwythurau rhanbarthol hyn ôl-osod gweithgareddau cydlynol sy'n 'cydgysylltu' ar draws y ffiniau hyn. Mae'r ymdrech yn 'ychwanegol' ac y tu allan i fusnes craidd cyflawni yn erbyn y polisi perthnasol neu'r rheidrwydd deddfwriaethol. Ac eto, deellir yn eang bod gan yr unigolion a'r teuluoedd y mae'r strwythurau hyn wedi'u dylunio i'w gwasanaethu anghenion sy'n torri ar draws parthau polisi a strwythurau rhanbarthol yn rheolaidd.

Gallai mynd i'r afael â chymhlethdod y tirlun deddfwriaethol ar gyfer gweithio amlasiantaethol yng Nghymru fod y tu hwnt i gylch gwaith partneriaid rhanbarthol. Roedd cyfranogwyr yn amharod i gynnig adolygiad llywodraethu, er y diffyg eglurder yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a threfniadau partneriaeth cysylltiedig. Serch hynny, mae'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau effeithiol o fewn y cyd-destun hwn wedi'u cydnabod yn eang, a dylid cydnabod y canlyniadau. Daeth adolygiad o bartneriaethau strategol a gynhaliwyd yn 2020 gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru hefyd i'r casgliad bod 'gormod o bartneriaethau' a 'gormod o gyfarfodydd'. Mae partneriaethau arwahanol sy'n orfodol drwy ddeddfwriaeth neu sydd o ganlyniad i raglenni a ariennir drwy grantiau yn aml wedi'u datgysylltu o'i gilydd, ac yn cael eu rhwystro rhag darparu canlyniadau sy'n bwysig i'r cyhoedd.

Cynigiodd y cyfranogwyr gyfres glir o argymhellion ar gyfer gwella gweithio amlasiantaethol ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghwm Taf Morgannwg. Cyflwynodd y grŵp uchelgais a rennir i ddatblygu consensws o gwmpas blaenoriaethau, gyda phartneriaid yn cydweithio ar lefel ranbarthol i alluogi blaenoriaethau a strategaeth i ganolbwyntio ar yr hyn sy’n bwysig ar lefel leol a rhanbarthol, ac adeiladu i fod yn rhan o waith cynllunio systemau. Gweithio mewn modd cydlynol fel cymuned o bartneriaid gyda gwell cyfathrebu, ymgysylltiad a rhannu data poblogaeth mwy amserol a hygyrch, er mwyn galluogi ymgysylltu ac arfer mwy creadigol er budd y cymunedau lleol. Mae’r mewnwelediadau a gafwyd a’r datrysiadau posibl a archwiliwyd yn gofyn am ymrwymiad, datblygu cyd-ddealltwriaeth, ac ymgysylltiad ar lefel ranbarthol a lleol i weithio’n gydweithredol.

# Cyfeiriadau

Abel, G., Barclay, M. a Payne, R. (2016). **Adjusted indices of multiple deprivation to enable comparisons within and between constituent countries of the UK including an illustration using mortality rates.** British Medical Journal, 6(11), 1-6.

Ager, A. (2013). **Annual Research Review: Resilience and child well-being – public policy implications**. Journal of Child Psychology and Psychiatry, 54(4), 488–500.

Baines, E., Blatchford, P., Kutnick, P., Chowne, A., Ota, C. a Berdondini, L. (2008). **Promoting effective group work in the primary classroom: A handbook for teachers and practitioners**. Abingdon: Routledge.

Birdwell, J., Scott, R. a Reynolds, L. (2015). **Character nation: A Demos report with the Jubilee Centre for Character and Virtues**. Cyrchwyd o: **www.demos.co.uk/wp-content/uploads/2015/09/476_1505_characternation_web.pdf**

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg. (2023). **Prosiect MUSE.** Cyrchwyd o **https://ctmregionalpartnershipboard.co.uk/muse-project/**

De Silva, S., Parker, A., Purcell, R., Callahan, P., Liu, P. a Hetrick, S. (2015). **Mapping the evidence of prevention and intervention studies for suicidal and self-harming behaviors in young people**. Crisis, 34, 223–232.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (2021), **Adroddiad Blynyddol Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol Cwm Taf Morgannwg 2020-2021.** Cyrchwyd o: **http://www.ourcwmtaf.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=286&mid=613&fileid=1120**

Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar. (2021). **EIF maturity matrix: Maternity and early years.** Cyrchwyd o **https://www.eif.org.uk/resource/eif-maturity-matrix-maternity-and-early-years**

Hodges, H. (2020). **Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru: Ffactorau sy'n Cyfrannu at Amrywiadau yng Nghyfraddau Awdurdodau Lleol.** Cyrchwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Plant-sy%E2%80%99n-Derbyn-Gofal-yng-Nghymru-Ffactorau-sy%E2%80%99n-Cyfrannu-at-Amrywiadau-yng-Nghyfraddau-Awdurdodau-Lleol.pdf**.

Arolwg Cenedlaethol Cymru. (2020). **Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2019 i Mawrth 2020.** Cyrchwyd o **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2019-i-mawrth-2020**

Gweithrediaeth GIG Cymru. (2022). **Fframwaith NEST**. Cyrchwyd o **https://executive.nhs.wales/networks-and-planning/wales-mental-health-network/together-for-children-and-young-people-2/the-nest-framework/**

Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. (2016). **Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd: Siartiau a thueddiadau awdurdodau lleol a byrddau iechyd.** Cyrchwyd o **https://public.tableau.com/views/PHOF2017LAHB-HOME/LAHB?:embed=y&:showVizHome=no**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. (2021). **Gwaith amlasiantaeth a deilliannau i blant sy'n derbyn gofal: Adolygu tystiolaeth.** Cyrchwyd o **https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/09/Multi-agency-working-and-outcomes-for-children-looked-after-Evidence-review.pdf**

What Works for Early Intervention and Children's Social Care. (2023). Cyrchwyd o **https://wweicsc.org.uk/**

Llywodraeth Cymru (2017) Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Cyrchwyd o **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/teuluoedd-yn-gyntaf-canllawiau-i-awdurdodau-lleol.pdf**

Llywodraeth Cymru. (2019). **Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22.** Cyrchwyd o **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-2022.pdf**

Llywodraeth Cymru. (2021). **Asesiadau Anghenion y Boblogaeth – Cyngor Atodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.** Cyrchwyd o **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/asesiadau-anghenion-y-boblogaeth.pdf**

Llywodraeth Cymru. (2022). **Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion. Adnewyddu Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022 - 2026.** Cyrchwyd o: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-05/crynodeb-o-ymatebion_0.pdf**

Llywodraeth Leol Cymru. (2020). **Adolygiad o Bartneriaethau Strategol, Adroddiad Terfynol.** Cyrchwyd o: **https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2792**

# Atodiad A – Cwestiynau Gweithdy 1

Cyflwynwyd y canfyddiadau o'r adolygiad desg a'r sgyrsiau anffurfiol i gyfranogwyr y gweithdy, cyn gofyn y cwestiynau hyn.

### Cynllunio

- A yw hyn yn gynrychiolaeth deg / a yw'n gyson â'ch profiad chi o weithio yng Nghwm Taf Morgannwg?
- Pa effaith mae'r sefyllfa dameidiog hon yn ei chael?
- Sut, yn eich barn chi, dylai dull/strategaeth ranbarthol edrych?
- A oes darlun rhanbarthol o ddigonolrwydd?
- Beth yw'r mecanweithiau rhanbarthol ar gyfer nodi problemau digonolrwydd a mynd i'r afael â nhw?
- A oes heriau gyda'r sefyllfa bresennol o ran mynd i'r afael â nhw?
- A oes gan y rhanbarth rôl yn cynllunio'r gweithlu?
- A oes unrhyw broblemau o ran peidio bod â chynllun gweithlu rhanbarthol?
- Sut mae'n effeithio ar adnoddau?

### Arwain

- A yw'r llinellau atebolrwydd, cyfrifoldeb a goruchwyliaeth yn glir?
- Beth yw'r mecanwaith ar gyfer dwysáu materion i'r lefel ranbarthol?
- Beth yw rôl y rhanbarth wrth ymdrin â materion sy'n cael eu dwysáu?
- A yw'r arweinwyr yn cael eu tynnu i mewn at agenda amlasiantaethol a rennir, ac yn ei gyrru?
- I ba raddau mae cymunedau'n rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau ar y lefel ranbarthol?
- Sut mae cyfranogiad ac ymgysylltiad y gymuned ar y lefel leol yn rhyngweithio ag ymdrechion rhanbarthol?
- Pa heriau / cyfleoedd a gaiff eu cynhyrchu gan y dull presennol?

### Cyflawni

### Gwerthuso

- Pa rôl mae’r rhanbarth yn ei chwarae wrth nodi a hyrwyddo ymyriadau ar sail tystiolaeth?
- A yw’r rhanbarth yn asesu perfformiad gwasanaethau / ymyriadau?
- I ba raddau mae data’n llywio trafodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau ar y lefel ranbarthol?
- A yw data’n gyrru penderfyniadau?  Ein teimlad yw eich bod chi’n buddsoddi llawer mewn pensaernïaeth rhannu data, ond ymddengys nad yw’r penderfyniadau’n cael eu gyrru gan ffynhonnell ddata a rennir sy’n dweud wrthoch chi beth sy’n digwydd yn eich rhanbarth. A yw hyn yn gywir?
- Beth yw’r problemau a’r cyfleoedd rydych chi’n credu mae hyn yn ei greu?
- Beth yw diben casglu a rhannu data rhanbarthol?
- I ba raddau mae’r rhanbarth yn gallu cadw cofnod o’r effaith y mae gwasanaethau / ymyriadau yn ei chael ar ganlyniadau?
- Pa waith gwerthuso darpariaeth sy’n digwydd ar lefel ranbarthol?
- Beth yw / ddylai rôl y rhanbarth fod yn hyn?
- Beth ydych chi’n ei galw’n dystiolaeth?
- Sut defnyddir hyn i lywio penderfyniadau?
- Ein hargraff ni yw bod gwerthusiadau’n cael eu comisiynu, ond nid oes gwaith gwerthuso cyson o ddarpariaeth gwasanaethau. A yw hyn yn gywir?

# Atodiad B – Cwestiynau Gweithdy 2

Cyflwynwyd y canfyddiadau o’r adolygiad desg, y sgyrsiau anffurfiol, a’r gweithdy cyntaf i gyfranogwyr y gweithdy o gwmpas y pedwar maes blaenoriaeth:

- Arweinyddiaeth
- Eglurder rôl cyrff rhanbarthol
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Cyd-ddealltwriaeth o angen, digonolrwydd ac effaith

Yna gofynnwyd iddynt ystyried:

- Pa gamau allweddol mae angen eu cymryd?
- Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud - effaith tymor byr?

# Atodiad C - Gweithredu

Nod y fformat hwn yw hwyluso trafodaeth strwythuredig o gwmpas y camau arfaethedig yn nhablau 2, 3 a 4 gyda rhanddeiliaid allweddol.

Dylai rhanddeiliaid gydweithio i wneud y canlynol:

- Ystyried y golofn ymdrech, trafod a chytuno ar lefelau a awgrymir gyda rhanddeiliaid;
- Blaenoriaethu camau gweithredu, gan ystyried y sgoriau ymdrech isel ac effaith uchel, a'r rhai sydd mwyaf priodol ar gyfer y camau nesaf y mae'r grŵp yn dymuno eu cymryd;
- Ystyried pwy ddylai fod yn rhan o'r drafodaeth a'r gwaith cynllunio ar draws y tirlun lleol a rhanbarthol;
- Casglu a defnyddio tystiolaeth briodol sydd ar gael a cheisio 'llenwi'r bylchau' os nad yw'r wybodaeth ar gael yn rhwydd;
- Sicrhau bod pawb perthnasol yn deall canlyniadau, effaith a manteision posibl gwneud y newidiadau;
- Cytuno ar gamau allweddol llai i wneud y newidiadau a phwy fydd yn cymryd perchnogaeth dros y rhain;
- Gosod dyddiadau adolygu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp o ran cynnydd a chymorth o gwmpas heriau;
- Ystyried defnyddio mesuriad coch, oren a gwyrdd i fesur cynnydd wrth i chi adolygu'r camau a gymerwyd;
- Ystyried gwaith ehangach a allai effeithio ar y cam hwn a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o ran sut gallai hyn effeithio ar y newidiadau a gynlluniwyd yma.

| Ffocws a Chanlyniad Cytunedig: *e.e. o'r tabl argymhellion dewiswch Partneriaeth, Ymgysylltu â'r Gymuned neu Cyd-ddealltwriaeth o Angen a chanlyniad o'r golofn gyntaf.* | Cam Posibl: *wedi'i gymryd o'r tabl argymhellion* | Y Rhanddeiliaid Perthnasol:<br><br>*Ystyriwch: Swyddogion Lleol a Rhanbarthol, cynrychiolaeth Rhieni / Gofalwyr, Partneriaid VCS, dadansoddwyr Data* |
|---|---|---|

| Cam Gweithredu | Perchnogion y Cam | Tystiolaeth Berthnasol | Cynnydd: | Dyddiad Adolygu (RAG) |
|---|---|---|---|---|
| *Torri camau gweithredu yn gamau llai* | *Ystyriwch:*<br><br>*Swyddogion Lleol a Rhanbartholol*<br><br>*Cynrychiolaeth Rhieni/Gofalwyr*<br><br>*Partneriaid VCS*<br><br>*Dadansoddwyr data* | *Ystyriwch:*<br><br>*Adborth gan bartneriaid strategol.*<br><br>*Canlyniadau Ymgynghori*<br><br>*Cylch gorchwyl ac aelodaeth grŵp partneriaeth*<br><br>*Cynlluniau hyfforddi a datblygu*<br><br>*Adroddiadau lleol a rhanbarthol*<br><br>*Rhannu gwybodaeth gan bartneriaid* | *Nodi'r cynnydd a wnaed a'r heriau i'w datrys gyda'r grŵp ehangach* | *Gosod dyddiad a mesur beth yw'r cynnydd tuag at hyn* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *Asesiad amlasiantaethol anghenion y boblogaeth* | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Camau nesaf / ystyriaethau pellach: *ystyried gwaith arall a allai effeithio ar hyn ac i'r gwrthwyneb* | | | | |

## Manylion yr Awduron

**Mae Dr  Amy Lloyd yn** Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dan Bristow** yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Kathryn Catterall** yn Ymgynghorydd Datblygu Lleol yn Foundations – What Works Centre for Children and Families.

Mae **Jo Flanagan** yn Uwch Ymgynghorydd Datblygu Lleol yn Foundations – What Works Centre for Children and Families.

Mae **Ben Lewing** yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Lleol yn Foundations – What Works Centre for Children and Families.

Mae **Charlotte Morgan** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru